## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

*Mae'r diwygio arfaethedig ar y contract Meddygon Preswyl a Deintyddion wedi'i asesu am ei effaith ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.*

*Mae'r diwygio yn mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn dilyniant cyflog ac amodau gwaith, yn enwedig i'r rhai mewn graddau hyfforddi. Mae'n hyrwyddo tryloywder a thegwch mewn termau contractiol, y disgwylir iddo effeithio'n gadarnhaol ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd o dan anfantais mewn gyrfaoedd meddygol.*

*Mae'r manteision a ragwelir yn cynnwys:*

- *Gwell tegwch mewn systemau cyflog a dilyniant*
- *Amodau gwaith gwell sy'n cefnogi iechyd a llesiant*
- *Mwy o hyblygrwydd a mesurau diogelu sydd o fudd i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu gyflyrau iechyd*

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar feddygon preswyl iau a deintyddion gan fod y graddfeydd cyflog wedi'u byrhau i 7 pwynt a'r strwythur newydd yn blaenlwytho tâl yn gynharach yn y raddfa gyflog. Maent hefyd yn debygol o elwa o | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiwygiadau sy'n blaenoriaethu amgylcheddau hyfforddi strwythuredig a chefnogol. Gallai'r diwygiadau sicrhau mynediad gwell at gyfleoedd hyfforddi, mentora, a chynlluniau datblygu gyrfa clir, pob un ohonynt yn hanfodol ar y cam hwn yn eu gyrfaoedd.<br><br>Gall oedran meddyg ddylanwadu ar sut y mae'r diwygio'r contract meddygon preswyl yn effeithio arnynt, yn enwedig o ran cam gyrfa, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, profiad a disgwyliadau.<br><br>Os yw meddyg hŷn yn ailddechrau hyfforddiant a'i gyflog yn cael ei bennu gan y cam hyfforddi yn hytrach na hyd ei wasanaeth, efallai y bydd o dan anfantais o'i gymharu ag eraill sydd â'r un profiad a allai fod ganddo. Er hynny, eu dewis eu hunain fyddai hyn gan eu bod yn optio i mewn i gontract hyfforddi. | | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a sut | Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar feddygon preswyl a | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan eu hamhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella

| | | | |
|---|---|---|---|
| y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariadau, neu sut y gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i'w dileu) | deintyddion sydd ag anabledd.<br><br>Bydd y cynnig yn cyflwyno cynllunio swyddi strwythuredig a chyfyngiadau cynhwysfawr, eang ar oriau gwaith. Bwriedir i hyn sicrhau bod rotas yn ddiogel i feddygon preswyl a deintyddion.<br><br>Mae'r cynnig yn creu rôl eiriolwr newydd sef 'Gwarcheidwad gweithio diogel a hyblyg' i hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant meddygon preswyl a deintyddion. | | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith ar bobl sydd wedi ailbennu rhywedd neu sydd yn y broses o ailbennu rhywedd.<br><br>Nod y diwygio yw creu amgylchedd gwaith mwy teg a chefnogol i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y rhai sy'n feichiog neu sydd ar absenoldeb mamolaeth.<br><br>Mae pwyslais y contract newydd ar degwch a | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |

cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | llesiant, er enghraifft oriau gwaith diogel, yn cefnogi arferion cynhwysol a gall leihau gwahaniaethu anuniongyrchol.<br><br>Mae'r contract newydd hefyd yn alinio TCS ar gyfer mamolaeth a thadolaeth â 'r rhai ar Agenda ar gyfer Newid ar gyfer cysondeb ar draws y GIG. | | |
| Hil (dylid cynnwys gwahanol grwpiau ethnig leiafrifol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar hil.<br><br>Er nad yw'r diwygiadau eu hunain yn canolbwyntio'n benodol ar hil, bwriedir i'r nodau ehangach o wella amodau gwaith, datblygu gyrfa a lleihau gwahaniaethu fod o fudd i bob meddyg a deintydd waeth beth fo'i hil. | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar grefydd.<br><br>Er y gallai diwygiadau i gyflog a'r wythnos waith ei gwneud yn haws i amserlennu nifer uchel o feddygon ar y penwythnos, gallai hyn effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn addoliad crefyddol. Nod y GIG yng Nghymru yw bod yn gynhwysol ac o dan y polisi gwyliau hyblyg, mae'n caniatáu i staff ofyn am amser i ffwrdd ar gyfer | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arferion a gwyliau crefyddol.<br><br>Mae gan gyflogwyr y GIG ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer staff sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys crefydd neu gred. Os yw defodau crefyddol meddyg yn gofyn am amser i ffwrdd penodol neu addasiadau amserlennu (e.e. ymprydio yn ystod Ramadan neu fynychu gwasanaethau crefyddol), byddai GIG Cymru yn gweithio i ganiatáu hyn lle bynnag y bo'n ymarferol. | | |
| Rhyw / Rhywedd | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar rywedd. | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar gyfeiriadedd rhywiol. | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith ar briodas a phartneriaeth sifil. | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith ar blant a phobl ifanc. | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |
| Aelwydydd incwm isel | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith ar aelwydydd incwm isel. | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar y grŵp hwn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl, yn eich barn chi?

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael unrhyw effaith iechyd ar hawliau dynol. | Nid yw'r contract newydd yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol. |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU, ynghyd â Chytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE[2] a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020[3]

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn yn deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a'r Cytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig[4], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswylydd newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath oedd 30 Mehefin 2021.

Ystyriaethau polisi y dylid rhoi sylw iddynt:

- A ydych wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion?
- A allai gael effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir? Sut y caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu dileu neu eu rheoli, os ystyrir ei bod yn briodol eu rheoli?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effaith eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a yw'r effaith yn un gadarnhaol neu negyddol ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i ddileu effeithiau negyddol posibl. Nodwch y rheswm dros eich ateb, gan gynnwys lle y ceisiwyd cyngor cyfreithiol a nodwch hefyd lle nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

**Preswylio** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswylydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswylio;

Rhagwelir na fydd y contract yn cael unrhyw effaith ar yr hawl i breswylio na hawliau eraill sy'n gysylltiedig â phreswylio gan mai ei ddiben yw darparu contract wedi'i foderneiddio i feddygon preswyl a deintyddion.

---

[2] Mae'r AEE yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.
[3] Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.
[4] E.e. os oes gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth Brydeinig a Gwyddelig ddeuol) neu os oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU)

Rhagwelir y bydd y contract yn cael effaith fach iawn ar gydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol gan mai ei ddiben yw darparu contract wedi'i foderneiddio i feddygon preswyl a deintyddion.

Er hynny, bydd preswylwyr sydd â phrofiad a gafwyd o waith dramor yn gallu cael mynediad at ddilyniant cyflog uwch yn seiliedig ar allu dangos tystiolaeth o'r meini prawf canlynol:

- ▪ Cymwyseddau a gwblhawyd yn unol â blwyddyn hyfforddi gyfatebol a gofyniad arbenigedd (gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy dystysgrif briodol o barodrwydd)
- ▪ Cyfarfodydd rheolaidd â Goruchwyliwr Addysgol neu gyfwerth ▪ Dangos eu cyfraniadau at rôl ehangach, er enghraifft, cyfranogiad ystyrlon neu gyfraniad at feysydd perthnasol fel a ganlyn
  - • Rheoli neu arweinyddiaeth
  - • Datblygu a moderneiddio gwasanaethau
  - • Addysgu a hyfforddi (eraill)
  - • Gwaith pwyllgor
  - • Gwaith cynrychioliadol
  - • Arloesi
  - • Archwilio
- ▪ Datblygiad Proffesiynol Parhaus (gan gynnwys cyrsiau, sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau)
- ▪ Tystiolaeth a gyflwynir fel y disgwylid o ARCP neu broses arfarnu.

Pan fo preswylydd yn gallu dangos tystiolaeth o'r meini prawf a ddisgrifir uchod, ystyrir bod pob blwyddyn o wasanaeth fel meddyg a gyflogir yn lleol (LED) neu feddyg dramor yn cyfateb i flwyddyn mewn rhaglen hyfforddi at ddibenion cyfrifiadau tuag at ddilyniant cyflog uwch. Os nad yw'r meddyg preswyl yn gallu darparu'r dystiolaeth hon, bydd pob blwyddyn galendr mewn gwasanaeth yn cael ei chyfrif fel cyfwerth â hanner blwyddyn mewn rhaglen hyfforddi ffurfiol at y dibenion hyn.

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd;

Rhagwelir na fydd y contract yn cael unrhyw effaith ar yr hawl i gael mynediad at systemau nawdd cymdeithasol, gan mai ei ddiben yw darparu contract wedi'i foderneiddio i feddygon preswyl a deintyddion.

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

Rhagwelir y bydd y contract yn cael effaith fach iawn ar driniaeth gyfartal i weithwyr, gan mai ei ddiben yw darparu contract wedi'i foderneiddio i feddygon preswyl a deintyddion. Bydd y cynnig yn cael **effaith gadarnhaol** ar feddygon preswyl a deintyddion drwy wella dilyniant cyflog, oriau gwaith, a diogelu llesiant. Mae'r diwygiad yn hyrwyddo **gwaith teg**, yn gwella boddhad swydd, ac yn cefnogi cadw staff.

**Hawliau gweithwyr** – Ar y cyfan, gwarentir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion y DU.

(Gall gweithwyr trawsffiniol (y dinasyddion hynny sy'n preswylio mewn un wladwriaeth ac sy'n gweithio'n rheolaidd mewn un arall) barhau i weithio yn y DU os oeddent yn gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).

Rhagwelir y bydd y contract yn cael effaith fach iawn ar hawliau gweithwyr, gan mai ei ddiben yw darparu contract wedi'i foderneiddio i feddygon preswyl a deintyddion. Bydd y cynnig yn cael **effaith gadarnhaol** ar feddygon preswyl a deintyddion drwy wella dilyniant cyflog, oriau gwaith, a diogelu llesiant. Mae'r diwygiad yn hyrwyddo **gwaith teg**, yn gwella boddhad swydd, ac yn cefnogi cadw staff.